# Adroddiad Adolygu Ymarfer Plant

## Bwrdd Diogelu De-ddwyrain Cymru
## Adolygiad Ymarfer Plant Cryno

## Cyf: SEWSCB 2/2022

## Disgrifiad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

Comisiynwyd adolygiad Ymarfer Plant gan Gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru, ar argymhelliad y Cyd-grŵp Adolygu Achosion. Roedd hyn yn unol â 'Cydweithredu i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2, Adolygiadau Ymarfer Plant, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn dilyn hunanladdiad merch 17 oed ym mis Hydref 2021.

Ar adeg ei marwolaeth, roedd Plentyn L yn byw mewn llety dros dro â chymorth. Yr Awdurdod Lleol oedd yn darparu'r llety ar ei chyfer yn dilyn asesiad digartrefedd ym mis Mai 2021.

Daeth staff y llety dros dro o hyd i Blentyn L wedi marw yn ei hystafell ym mis Hydref 2021 yn ystod gwiriadau llesiant y bore. Roedd Plentyn L wedi marw drwy grogi.

Ceisiwyd cynnwys teulu Plentyn L yn yr adolygiad. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth gyda'r Swyddog Cyswllt Teulu, nid oeddent yn teimlo y gallent ymgysylltu â'r broses. Ni theimlent y gallent rannu enw yr hoffent i'r adroddiad hwn ei ddefnyddio i gyfeirio ati. O ganlyniad, mae'r adroddiad yn cyfeirio ati fel Plentyn L.

**<u>Cefndir</u>**

Ganwyd Plentyn L yn Latfia a threuliodd ei blynyddoedd cyntaf yno, yn byw gyda'i mam-gu ar ochr ei mam. Bu farw tad Plentyn L trwy hunanladdiad pan oedd hi'n 3 oed. Roedd mam Plentyn L yn byw yn y DU, ac yn 8 oed, symudodd Plentyn L a'i mam-gu i Loegr er mwyn byw gyda hi.

Priododd mam Plentyn L eto a chafodd 2 blentyn, sef hanner siblingiaid Plentyn L, a oedd yn 2 a 3 oed adeg ei marwolaeth. Mae gan un o hanner siblingiaid Plentyn L salwch terfynol.

Daeth Plentyn L i sylw'r gwasanaethau mor gynnar â 2014, pan oedd yn 10 oed. Agorwyd ei hachos i'r Gwasanaethau Plant lleol oherwydd pryderon ynghylch ymddygiad wedi'i rywioli. Cafwyd honiadau o gam-drin domestig yng nghartref y

teulu ac adroddiadau am ymddygiad treisgar tuag at Blentyn L gan ei mam a'i llystad.

Dros y cyfnod 2 flynedd roedd Plentyn L yn hysbys i Wasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol yn Lloegr, roedd pryderon yn parhau ynghylch ymddygiad wedi'i rywioli, materion esgeuluso yn y cartref a thrais corfforol parhaus.

Cafwyd adroddiadau hefyd am broblemau o ran iechyd meddwl Plentyn L. Dywedodd ei mam bod Plentyn L wedi ceisio torri ei harddyrnau yn 2014, pan oedd yn 10 oed. Yn 2015, yn 11 oed, dywedodd Plentyn L ei bod yn bwriadu gwneud amdani ei hun drwy grogi. Roedd yn nhoiledau'r ysgol gyda chadwyn o amgylch ei gwddf.

Nodwyd bod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi effeithio ar ddatblygiad Plentyn L, a dywedwyd bod arni ofn ei mam a'i llystad.

O ganlyniad i'r pryderon hyn, aethpwyd â Phlentyn L o ofal ei mam a'i llystad gan yr heddlu, a lluniwyd Gorchymyn Gofal Interim ym mis Tachwedd 2015.

Ym mis Mawrth 2016, nododd adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal:

- Aseswyd anghenion cyffredinol Plentyn L a gallu rhianta'r fam trwy'r achos llys
- Cafodd Plentyn L asesiad meddygol Plant sy'n Derbyn Gofal, ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac asesiad gan seicolegydd plant arbenigol trwy'r achos llys
- Roedd gan Blentyn L lefel IQ o 68 a olygai bod ganddi lefel o anghenion dysgu ychwanegol (77 yw lefel IQ plentyn 12 oed ar gyfartaledd)
- Roedd Plentyn L yn destun Cynllun Addysg Personol. Nid oedd wedi bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ers cyn symud i'r lleoliad gofal.
- Roedd Plentyn L yn dweud ei bod eisiau mynd yn ôl i fyw gyda'i theulu, ac nad oedd ofn arni.
- Nodwyd bod Plentyn L 'yn blentyn cymhleth sy'n debyg o fod angen llawer o gymorth i ffynnu'
- Cafodd Plentyn L ei hasesu trwy'r achos llys

Arhosodd Plentyn L mewn lleoliad maeth tan fis Mawrth 2016, pan ddychwelodd i gartref y teulu.

Ar ôl iddi ddychwelyd i gartref y teulu, parhaodd Plentyn L i fod yn agored i wasanaethau am faterion gan gynnwys camfanteisio rhywiol ar blentyn, cyfnodau o fynd ar goll a phryderon iechyd meddwl.

Symudodd y teulu i fyw yn ardal Casnewydd yng Nghymru. Ar adeg yr adleoli, nid oedd Plentyn L bellach yn achos agored gyda'r Gwasanaethau Plant yn Lloegr, felly ni wnaeth yr Awdurdod Lleol gwblhau na gofyn am drosglwyddiad o'i gofal.

Wedi i Blentyn L symud i Gymru a dechrau mynd i leoliad addysg prif-ffrwd yn yr ardal, cafwyd atgyfeiriadau at a chyswllt â nifer o asiantaethau oherwydd y berthynas rhwng Plentyn L a'i theulu, a oedd yn parhau i fod yn heriol.

Yn 2019 ac yn 14 oed, symudodd Plentyn L o gartref y teulu ac aeth i fyw gyda'i phartner gwryw 18 oed a'i fam. Cafodd y trefniant hwn ei gefnogi gan fam Plentyn L. Nid oedd Plentyn L mewn addysg brif-ffrwd bellach oherwydd materion presenoldeb ac ymddygiad, ac roedd yn mynychu Canolfan Addysg yn ardal yr Awdurdod Lleol.

Mynegodd mam-gu Plentyn L ar ochr y fam a'r Ganolfan Addysg bryderon am y berthynas â'r gwryw hŷn. Fodd bynnag, daeth y Gwasanaethau i Blant i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o gam-drin neu gamfanteisio. O ganlyniad, parhaodd Plentyn L i fyw gyda'i phartner a'i fam.

Yn 2021 ac yn 16 oed, ymgyflwynodd Plentyn L fel person digartref wedi i'r berthynas chwalu rhyngddi a'i mam a'r partner hŷn y bu'n byw gydag ef.

Yn dilyn asesiad digartrefedd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Lleol, lleolwyd Plentyn L mewn llety dros dro â chymorth, dan reolaeth darparwr tai â chymorth. Cafodd le yno ym mis Mai 2021. Roedd wedi bod yn byw yn y lleoliad am 5 mis pan fu farw ym mis Hydref 2021.

**Y Cyfnod Amser a Adolygwyd**

Cytunwyd i adolygu'r cyfnod o 1 Hydref 2019 i 1 Hydref 2021.

## Dysgu am ymarfer a gweithdrefnau

Rydym yn ddiolchgar i'r asiantaethau am y cronolegau, ac i'r gweithwyr proffesiynol a fynychodd y digwyddiad dysgu.

**Themâu a Phwyntiau Dysgu**

Nodwyd pum thema trosfwaol a lywiodd y pwyntiau dysgu o'r adolygiad hwn.

- Cyfleoedd a fethwyd i gyflwyno atgyfeiriadau diogelu
- Diffyg asesiadau diogelu yn canolbwyntio ar y plentyn
- Ansawdd yr asesiadau diogelu
- Methu gwybodaeth diogelu a rhannu trawsffiniol
- Trefniadau Covid-19

**<u>Thema 1: Cyfleoedd a fethwyd i gyflwyno atgyfeiriadau diogelu</u>**

Yn ystod y ddwy flynedd cyn marwolaeth Plentyn L, methwyd cyfleoedd i gyflwyno atgyfeiriadau diogelu. Roedd y rhain yn cynnwys methiannau i gyflwyno Hysbysiadau Diogelu Cyhoeddus (PPN) a Dyletswyddau i Adrodd (DTR).

**Cyfleoedd a fethwyd gan yr Heddlu:**
Ym mis Hydref 2019, adroddwyd achos o ymosod i Heddlu Gwent. Honnwyd bod Plentyn L wedi ymosod ar gymydog yn y stryd oherwydd gelyniaeth barhaus. Ni

chymerwyd unrhyw gamau pellach gan yr Heddlu er mai dim ond 15 oed oedd Plentyn L ac roedd y bobl eraill yn oedolion.

Ym mis Mehefin 2021, dywedodd staff y llety â chymorth lle roedd Plentyn L yn byw wrth yr heddlu ei bod ar goll, gan ei bod yn 16 oed a heb ddychwelyd i'r llety. Fel rhan o'r ymholiadau, chwiliodd yr heddlu ystafell Plentyn L lle daethpwyd o hyd i botel fodca gwag a chondomau. Ni chyflwynodd Heddlu Gwent Hysbysiad Diogelu Cyhoeddus ar gyfer y digwyddiad hwn.

**Cyfleoedd a fethwyd gan yr adran Dai:**
Rhwng mis Mai a mis Hydref 2021 pan oedd Plentyn L yn byw mewn llety â chymorth, cofnododd staff y pryderon canlynol ar ei ffeil achos:

- Perthnasoedd ag oedolion gwryw gwahanol
- Yn mynd i ran o Gasnewydd yn aml – pryderon yn hysbys am yr ardal a doedd gan Blentyn L ddim cysylltiadau hysbys yno.
- Cysylltu â merch ifanc arall oedd yn hysbys i asiantaethau fel oedolyn ifanc cymhleth a dioddefwr camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE)
- Pryderon ynghylch cam-drin domestig gyda Phlentyn L a phreswylydd arall yn adrodd digwyddiadau o gam-drin corfforol ac ymddygiad rheolaethol gan bartner Plentyn L.
- Oedolion gwryw yn casglu a gollwng Plentyn L yn y llety
- Cyfnodau pan oedd ar goll, aros allan trwy'r nos, a dychwelyd yn hwyr yn rheolaidd
- Botel fodca gwag a chondomau yn ei hystafell
- Oedolion gwryw yn aros yn ei hystafell
- Gwrthod gwiriadau llesiant
- Dweud wrth staff ei bod hi'n feichiog
- Hunan-ddatgeliad ei bod hi'n yfed alcohol
- Adrodd diffyg gallu i ymdopi ac yn teimlo bod ei hiechyd meddwl yn dirywio

Cofnodwyd y pryderon ar ffeil preswylydd Plentyn L, ond ni chafodd atgyfeiriad Dyletswydd i Adrodd ei gyflwyno i'r Gwasanaethau Plant. Ceisiwyd ymgysylltu â gweithiwr cymdeithasol trwy negeseuon e-bost, ond nid oedd y rhain yn llwyddiannus ac nid hwn oedd y mecanwaith cywir i ddechrau asesiad newydd, gan nad oedd yr achos ar agor iddynt.

**Cyfleoedd a fethwyd gan y Bwrdd Iechyd:**
Cyflwynodd Adran Brys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan atgyfeiriad Dyletswydd i Adrodd ar gyfer Plentyn L wythnos cyn ei marwolaeth. Yn anffodus, cwblhawyd yr atgyfeiriad gan staff yr Adran Brys ar 29 Medi 2021, ond ni chafodd ei dderbyn gan y Gwasanaethau Plant cyn marwolaeth Plentyn L ym mis Hydref 2021. Roedd hyn oherwydd anawsterau yn y system Iechyd o ran cwblhau dogfennau, eu sganio, lanlwytho a'u cyflwyno i'r Gwasanaethau Plant cywir.

**<u>Arfer da</u>**
Drwy gydol yr adolygiad hwn, nodwyd bod lleoliadau addysg Plentyn L wedi ymateb yn amserol i faterion diogelu ac wedi cyflwyno sawl atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant.

Hefyd, wythnos cyn ei marwolaeth, aeth Plentyn L i Adran Brys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oherwydd poenau yn ei brest.

Wrth siarad â staff yr ysbyty, dywedodd ei bod yn defnyddio maint sylweddol o ganabis gwerth £70 bob dydd. Nodwyd hefyd yn y cofnodion meddygol ei bod wedi ddioddef cam-drin domestig mewn perthynas flaenorol. Cyflwynwyd atgyfeiriad Dyletswydd i Adrodd gan staff yr Adran Brys (ond ni chafodd ei dderbyn cyn ei marwolaeth).

**<u>Thema 2: Diffyg asesiadau diogelu yn canolbwyntio ar y plentyn</u>**

Nodwyd bod cyfleoedd a fethwyd i siarad yn uniongyrchol â Phlentyn L ar sawl achlysur, ac o ganlyniad, nid oedd yr asesiadau'n canolbwyntio ar y plentyn. Dangosodd y digwyddiad dysgu bod deall profiad byw Plentyn L yn heriol ac nad oedd ei llais yn glir ar unrhyw adeg.

Ar adegau, cafodd Plentyn L ei thrin fel oedolyn a allai wneud penderfyniadau heb gymorth, ac ar adegau eraill, fel plentyn oedd angen i'w mam wneud penderfyniadau ar ei rhan. Roedd diffyg cysondeb o ran ymagweddau'r gweithwyr proffesiynol ac nid oedd llawer o dystiolaeth bod ei llais yn cael ei hystyried yn yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod cyfnod y llinell amser.

Ym mis Hydref 2019, ymatebodd Heddlu Gwent i adroddiad am Blentyn L yn cyflawni trosedd sef ymosodiad. Dim ond 15 oed oedd Plentyn L ar y pryd, ond am nad hi a ddioddefodd y drosedd, diystyriwyd ei llesiant fel plentyn ac ni chydnabuwyd y pryderon diogelu ehangach. Ni chafodd Hysbysiad Diogelu Cyhoeddus ei gyflwyno, a fyddai efallai wedi ysgogi asesiad cyfannol lle byddai ei llais wedi cael ei glywed o bosibl.

Hefyd ym mis Hydref 2019, cyflwynwyd atgyfeiriad Dyletswydd i Adrodd gan yr adran Addysg i'r Gwasanaethau i Blant yn cadarnhau bod Plentyn L yn byw gyda'i chariad 18 oed yng nghartref ei rieni. Dylid bod wedi cynnal Trafodaeth Strategaeth aml-asiantaeth ond nid oes cofnod bod hyn wedi cael ei hystyried. Fodd bynnag, cwblhawyd asesiad a siaradwyd â mam Plentyn L a mam partner Plentyn L. Trafodwyd cynllunio diogelwch, fodd bynnag, ni chafwyd trafodaeth gyda Phlentyn L.

Ym mis Chwefror 2020, cyflwynodd yr adran Addysg atgyfeiriad Dyletswydd i Adrodd pellach am fod Plentyn L yn byw gyda'i phartner oedd yn oedolyn, gyda chydsyniad y fam. Datgelodd Plentyn L bod ei phartner yn gwerthu cyffuriau a dywedodd wrth staff addysg ei bod eisiau beichiogi.

Cafodd yr atgyfeiriad ei gau gan y Gwasanaeth i Blant ddau ddiwrnod yn ddiweddarach. Nid oes tystiolaeth o Drafodaeth Strategaeth yn cael ei hystyried na thystiolaeth o fod angen siarad â Phlentyn L. Amlygwyd pryderon nad oedd Plentyn L yn cael y lefel o oruchwyliaeth rhiant sydd ei hangen arni. Er hynny, gwrthododd mam Plentyn L roi ei chaniatâd i Blentyn L gymryd rhan yn y trafodaethau, a nodwyd mai hi oedd yr oedolyn â chyfrifoldeb rhiant.

Yn ystod y digwyddiad dysgu, mynegodd gweithwyr proffesiynol bryderon bod yr asesiad diogelu wedi nodi diffyg goruchwyliaeth rhiant. Fodd bynnag, derbyniwyd mai gan mam Plentyn L oedd yr hawl i benderfynu pwy oedd yn siarad â Phlentyn L. Mae hyn i weld yn gwrthdaro â'r rheswm dros yr atgyfeiriad Dyletswydd i Adrodd, sef deall profiad byw a llesiant Plentyn L. Teimlwyd nad oedd y rhain wedi'u hasesu'n gywir.

**Thema 3: Ansawdd yr Asesiadau Diogelu**

Cynhaliwyd dau asesiad gan y Gwasanaethau Plant yn ystod y cyfnod adolygu.

**Asesiad 1:**
Fel yr amlygwyd yn Thema 2, cychwynnwyd yr asesiad cyntaf ar ôl cyflwyno atgyfeiriad Dyletswydd i Adrodd gan leoliad addysg Plentyn L ym mis Chwefror 2020. Roedd y Ddyletswydd yn cynnwys gwybodaeth bod Plentyn L yn byw gyda'i phartner oedd yn oedolyn, ei fod yn gwerthu cyffuriau, y gallai hi fod yn feichiog a'i bod yn ceisio beichiogi.

Dynodwyd yr atgyfeiriad i'w asesu. Cynhaliwyd gwiriadau ochrol gyda'r heddlu a'r gwasanaethau mamolaeth a chwblhawyd 'asesiad cymesurol' gyda mam Plentyn L.

Roedd yr asesiad cymesurol gyda mam Plentyn L yn codi pryderon bod Plentyn L yn ceisio beichiogi a'i bod yn camddefnyddio canabis gyda'i phartner oedd yn oedolyn. Nodwyd pryderon hefyd nad oedd Plentyn L yn cael y lefel ofynnol o oruchwyliaeth rhiant.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth o werthu cyffuriau na bod Plentyn L yn feichiog yn y gwiriadau ochrol.

Daeth yr asesiad i ben ym mis Mawrth 2020. Canfuwyd nad oedd unrhyw bryderon o ran amddiffyn plant, bod mam Plentyn L wedi gwrthod asesiad arall ac wedi gwrthod rhoi ei chaniatâd i siarad â Phlentyn L. Ystyriwyd bod Plentyn L yn ddiogel, a chaewyd yr achos.

Teimlwyd nad oedd yr asesiad hwn wedi ystyried yn llawn y ffactorau risg ehangach yn gysylltiedig â Phlentyn L am nifer o resymau, gan gynnwys:

- Nid oedd yn glir a oedd cais am wybodaeth wedi'i gyflwyno i Wasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol yn Lloegr at ddibenion asesu. Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth ac felly nid oedd unrhyw ddealltwriaeth o bryderon amddiffyn plant hanesyddol na hanes y teulu yn yr asesiad
- Ni chafodd perthynas Plentyn L â'i phartner ei hasesu'n briodol ac roedd diffyg dealltwriaeth o ddynameg y berthynas
- Ni siaradwyd â Phlentyn L, ac ni chafodd y ffaith nad oedd y fam yn rhoi ei chaniatâd i hyn ei herio fel pryder
- Nid oedd iechyd rhywiol yn y dyfodol a beichiogrwydd posibl yn rhan o'r asesiad na'r camau nesaf.
- Fodd bynnag, yn bwysicach fyth, ni ystyriwyd diogelwch Plentyn L o dan y Gweithdrefnau Diogelu.

**Asesiad 2:**

Cynhaliwyd yr ail asesiad ym mis Mai 2021 pan ymgyflwynodd Plentyn L yn ddigartref i'r Awdurdod Lleol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gymhwyso Dyfarniad Southwark fel rhan o'r asesiad.

Bwriad Dyfarniad Southwark yw i blant digartref 16 a 17 oed gael eu hystyried am lety o dan adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (adran 20 o Ddeddf Plant 1989 cyn hynny) er mwyn sicrhau eu hawl i gymorth ehangach a mwy hirdymor. Mae plentyn a letywyd o dan adran 76 yn troi'n 'blentyn cymwys' yn awtomatig yn 16 oed, ac yn cael amddiffyniadau a hawliau ehangach o adael y gwasanaethau gofal.

Mae angen cytundeb y plentyn i letya plentyn 16 neu 17 oed o dan adran 76. Felly mae'n hollbwysig ei fod yn chwarae rhan lawn yn y penderfyniad ac yn cael gwybod amdano.

Lle bo plentyn yn gwrthod llety adran 76, rhaid i'r gwasanaethau plant fod yn fodlon bod y person ifanc wedi cael yr holl wybodaeth a'i fod yn gymwys i wneud penderfyniad o'r fath ac nad oes angen iddynt gymryd camau diogelu ychwanegol.

Cynhaliwyd yr asesiad yn ystod y pandemig Covid-19 ac roedd yn cynnwys galwad ffôn i fam Plentyn L a galwad ffôn i Blentyn L. Casgliad yr asesiad oedd y byddai anghenion Plentyn L yn cael eu diwallu trwy'r adran dai a thrwy ei rhoi hi mewn llety â chymorth i bobl o wahanol oedran a rhyw.

Bwriadwyd cyflwyno atgyfeiriad Dyletswydd i Adrodd er mwyn sicrhau bod Plentyn L yn cael cymorth gan y gwasanaethau priodol i bobl ifanc sy'n byw i ffwrdd o'u teuluoedd ac asiantaethau cymorth eraill.

**<u>Thema 4: Methu gwybodaeth diogelu a rhannu trawsffiniol</u>**

Pan oedd yn byw yn Lloegr, roedd Plentyn L yn hysbys i Wasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol, ac roedd wedi bod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal.

Nid yw'n glir pa gamau a gymerwyd gan y Gwasanaethau Plant, os o gwbl, i gael y wybodaeth hon fel rhan o asesiadau Plentyn L. Ni aseswyd erioed bod angen ymyrraeth barhaus ar Blentyn L, felly ymddengys nad oedd neb wedi gofyn am na dilyn i fyny ar y ceisiadau cychwynnol am wybodaeth.

Nid yw'n glir chwaith a wnaeth y Gwasanaethau Plant yn Lloegr fethu ag ymateb i'r ceisiadau am wybodaeth na sut yr ymdriniwyd â hyn gan y Gwasanaethau Plant o ran ei uwchgyfeirio i'r uwch reolwyr.

Drwy gydol y cyfnod adolygu, nododd y Gwasanaethau Plant a staff y llety â chymorth yn eu cofnodion fod gwybodaeth ynghylch hanes Plentyn L ar goll.

Cafodd y wybodaeth a gadwyd gan Wasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol yn Lloegr am Blentyn L ei derbyn trwy wneud cais ar ôl ei marwolaeth. Fel y gwelir yn adran gefndir yr adroddiad hwn, roedd hanes Plentyn L yn arwyddocaol.

Yn y digwyddiad dysgu, teimlai'r gweithwyr proffesiynol pe buasai cefndir Plentyn L yn hysbys iddynt, gallai ymyrraeth fod wedi digwydd yn gynharach.

**<u>Thema 5: Trefniadau gweithio Covid-19</u>**

Ar ddechrau'r pandemig Covid-19 yn gynnar ym mis Mawrth 2020, roedd yn ofynnol i sefydliadau adolygu trefniadau gweithio'n rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chyngor y llywodraeth ac yn parhau i ddarparu gwasanaethau allweddol.

Ni chafwyd unrhyw newid i gyfrifoldebau diogelu'r asiantaethau yn ystod y pandemig. Disgwyliwyd i'r asiantaethau diogelu statudol ddatblygu prosesau i sicrhau nad oedd darpariaeth gwasanaethau'n cael ei beryglu oherwydd y ffyrdd newydd o weithio.

Er hynny, cydnabyddir nad oedd parhad busnes ym maes diogelu yn rhwydd i'r holl asiantaethau statudol ac anstatudol. Effeithiwyd ar niferoedd staff gan salwch a gwarchod, roedd pobl yn ofni'r haint ac roedd plant yn llai gweladwy oherwydd yr effaith ar ysgolion a grwpiau. Cydnabyddir y bydd llawer o niweidiau cudd wedi digwydd oherwydd y cyfyngiadau ar fynediad gweithwyr proffesiynol i blant mewn perygl, ac ar eu gwelededd.

Effeithiodd y pandemig ar y gwasanaethau a gynigiwyd i Blentyn L, gan gynnwys:

- Roedd llai o gyswllt rhwng Plentyn L a'r staff addysg yr ymddangosai fod ganddynt dreiddgarwch da i'r pryderon diogelu oedd yn gysylltiedig â hi
- Cyflawnwyd asesiad yr adran Dai dros y ffôn
- Cyflawnwyd asesiad y Gwasanaethau Plant dros y ffôn
- Yn y digwyddiad dysgu, disgrifiodd staff y llety â chymorth heriau staffio sylweddol oherwydd salwch a'r angen i staff ynysu. O ganlyniad, nid oedd gan Blentyn L Weithiwr Allweddol cyson. Cafodd ei gweld gan wahanol aelodau staff yn rheolaidd, gan gynnwys staff asiantaeth.

**Arfer da:**
Cynhaliodd yr adran Addysg gyswllt rheolaidd â Phlentyn L trwy gydol Covid gan gynnig cymorth iddi gyda thasgau academaidd.

## Gwella systemau ac arferion

**<u>Argymhellion</u>**

**<u>Thema 1 - Cyfleoedd a fethwyd i gyflwyno atgyfeiriadau Hysbysiad Diogelu Cyhoeddus a Dyletswydd i Adrodd (DTR)</u>**

Diweddariadau Ymarfer

Mae Heddlu Gwent wedi cadarnhau bod ei brosesau wedi gwella'n sylweddol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant o ran Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a thrawma. Yn y digwyddiad dysgu, roedd y Swyddogion Heddlu a oedd yn bresennol yn hyderus y byddai atgyfeiriad yn cael ei gyflwyno petai hyn yn digwydd eto.

Cadarnhaodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ei fod bellach wedi rhoi proses ar waith ar gyfer cyflwyno atgyfeiriadau diogelu sy'n sicrhau bod yr atgyfeiriadau diogelu'n cael eu hanfon ar y diwrnod y caiff y pryder neu fater diogelu ei godi.

Mae'r darparwr llety â chymorth wedi cydnabod bod angen lefel ddigonol o hyfforddiant ar yr holl staff yn unol ag asiantaethau diogelu allweddol. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn adolygu'r cynllun hyfforddiant diogelu i sicrhau bod yr holl staff yn cael y lefel gywir o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, hyfforddiant Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a hyfforddiant cam-drin domestig. Bydd Bwrdd Diogelu De-ddwyrain Cymru yn goruchwylio'r gwaith o gwblhau'r cynllun hyfforddi ac yn rhoi mewnbwn iddo. Mae hefyd angen i staff gymryd rhan yn yr hyfforddiant amlasiantaethol a ddarperir gan Fwrdd Diogelu De-ddwyrain Cymru, ac anogir y rheolwyr i fynychu cyfarfodydd dysgu lleol a grwpiau adolygu.

**Argymhelliad 1**

Mae'r darparwr llety â chymorth yn sicrhau bod cynllun hyfforddi a datblygu diogelu ar waith ar gyfer yr holl staff ar bob lefel, gyda chymorth gan Fwrdd Diogelu De-ddwyrain Cymru.

**Thema 2 – Diffyg asesiadau diogelu sy'n canolbwyntio ar y plentyn**

Diweddariad Ymarfer

Mae Heddlu Gwent wedi cadarnhau bod hyfforddiant a gwybodaeth ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, ynghyd â chwilfrydedd proffesiynol, wedi gwella yn y cyfamser. Mae Heddlu Gwent wedi pennu swydd newydd sef Swyddog Lleihau Niwed Bregusrwydd, a'r rôl hon fydd y cyswllt rhwng y timau plismona yn y gymdogaeth ac uned diogelu'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod ymagwedd gydgysylltiedig fwy cadarn at faterion amddiffyn plant. Mae ganddynt hefyd Hyfforddwr Bregusrwydd dynodedig ar gyfer hyfforddiant ar draws yr heddlu.

Mae Swyddog Digartrefedd wedi'i leoli gyda Gwasanaethau Plant er mwyn cwblhau cyd-asesiadau ar gyfer anghenion digartrefedd a chymorth, gan gynnwys ystyriaeth o Ddyfarniad Southwark.

**Argymhelliad 2**
Rhaid i bob asiantaeth atgoffa staff o bwysigrwydd cydnabod oedran y plentyn wrth ystyried y pryderon a gyflwynir, profiad bywyd y plentyn a'r camau gweithredu gofynnol yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

**Argymhelliad 3**

Yr holl asiantaethau i adolygu eu hoffer cofnodi mewnol er mwyn sicrhau y caiff llais y plentyn ei hyrwyddo ac y ceir tystiolaeth ohono.

**Argymhelliad 4**
Rhaid i ymarferwyr Gwasanaethau Plant sicrhau y caiff plant eu gweld (a'u gweld ar eu pen eu hunain os yw'n briodol) fel rhan o asesiad.

**Argymhelliad 5**
Rhaid i ymarferwyr Gwasanaethau Plant uwchgyfeirio pryderon os yw rhieni'n gwrthod neu'n herio'r angen i blentyn gael ei weld (a'i weld ar ei ben ei hun os yw'n briodol) a chofnodi'r penderfyniad hwnnw.

**Argymhelliad 6**
Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried datblygu canllawiau ymarfer ar brofiad byw y plentyn er mwyn cynorthwyo treiddgarwch yr ymarferwyr, i sicrhau y caiff llais y plentyn ei glywed yn weithredol ac i gefnogi camau effeithiol i ddiogelu plant a phobl ifanc.

**<u>Thema 3 – Ansawdd Asesiadau Diogelu</u>**

<u>Diweddariad Ymarfer</u>

Datblygu Strategaeth Tai a Digartrefedd Pobl Ifanc gan gyfarwyddiaethau yn yr Awdurdod Lleol

**Argymhelliad 7**
Gwasanaethau Plant a'r adran Dai i sicrhau bod y staff perthnasol yn ymwybodol o Ddyfarniad Southwark a sut y gellir cymhwyso'r prif egwyddorion i asesiadau gyda phobl ifanc ddigartref. Efallai bydd angen i asiantaethau adolygu eu hoffer asesu er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y plentyn, yn hyrwyddo llais y plentyn ac yn cofnodi bod gan y plentyn y gallu i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth.

**Argymhelliad 8**
Y Bwrdd Diogelu i ofyn i Fforwm Gadael Gofal Cymru Gyfan ystyried datblygu deunydd megis fideos neu bodlediadau a grëwyd gan bobl ifanc â phrofiad o ofal y gellir eu defnyddio i gynorthwyo pobl ifanc 16 a 17 oed i ddeall Dyfarniad Southwark.


**<u>Thema 4 – Gwybodaeth goll</u>**

**Argymhelliad 9**
Yr holl asiantaethau i sicrhau bod ganddynt weithdrefnau ar waith i gasglu gwybodaeth hanesyddol o ardaloedd eraill lle gwyddys yr ymgysylltwyd â'r plentyn neu'r teulu, ac i fod â pholisïau uwchgyfeirio clir ar waith os na ddarperir y wybodaeth hon o fewn amserlen resymol.

**<u>Thema 5 – Trefniadau Covid 19</u>**

**Argymhelliad 10**

Os digwydd pandemig arall neu sefyllfa lle yr effeithir ar y prosesau darparu gwasanaethau, bydd angen i'r holl asiantaethau fod â chynlluniau clir wrth gefn ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau y cânt eu gweld wyneb yn wyneb.

| **Datganiad yr Adolygydd (Adolygwyr)** | | | |
|---|---|---|---|
| **ADOLYGYDD 1** | | **ADOLYGYDD 2** | |
| **Datganiad o annibyniaeth o'r achos**<br>*Datganiad Cymhwyster Sicrhau Ansawdd* | | **Datganiad o annibyniaeth o'r achos**<br>*Datganiad Cymhwyster Sicrhau Ansawdd* | |
| Rwyf yn datgan fy mod i, cyn imi gymryd rhan yn yr adolygiad dysgu hwn:<br>• Heb ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol am yr achos<br>• Nid oes gen i reolaeth llinell uniongyrchol dros yr ymarferydd/ ymarferwyr dan sylw.<br>• Yn meddu ar y cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant priodol a gydnabyddir i gynnal yr adolygiad<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn ddadansoddiad a gwerthusiad manwl o'r materion fel y'u nodwyd yn y Cylch Gorchwyl. | | Rwyf yn datgan fy mod i, cyn imi gymryd rhan yn yr adolygiad dysgu hwn:<br>• Heb ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol am yr achos<br>• Nid oes gen i reolaeth llinell uniongyrchol dros yr ymarferydd/ ymarferwyr dan sylw.<br>• Yn meddu ar y cymwysterau, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant priodol a gydnabyddir i gynnal yr adolygiad<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn ddadansoddiad a gwerthusiad manwl o'r materion fel y'u nodwyd yn y Cylch Gorchwyl. | |
| **Adolygydd 1**<br>*(Llofnod)* |  | **Adolygydd 2**<br>*(Llofnod)* |  |
| **Enw**<br>*(Printiwch)* | Sinead Lewis | **Enw**<br>*(Printiwch)* | Amy Bucknall |
| **Dyddiad** | 14.10.22 | **Dyddiad** | 14.10.22 |

| | |
|---|---|
| *Cadeirydd y Panel Adolygu (Llofnod)* |  |
| **Enw** *(Printiwch)* | Gareth Jenkins |
| **Dyddiad** | 14.10.22 |

## Y broses Adolygu Ymarfer Plant

Ar 16 Chwefror 2022, hysbysodd Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru Lywodraeth Cymru ei fod yn comisiynu Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig mewn perthynas â phlentyn

Reviewer: Sinead Lewis, Senior Probation Officer, Gwent Probation Delivery Unit, HM Prison and Probation Service

Reviewer: Amy Bucknall, Head of Safeguarding, Aneurin Bevan University Health Board

**Cadeirydd y Panel Adolygu** Gareth Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Roedd y gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel yn cynnwys:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Addysg
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
- Heddlu Gwent
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Daeth y panel ynghyd i adolygu'r wybodaeth amlasiantaethol a rhoi dadansoddiad er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r adroddiad.

Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu ar 29 Medi 2022 ac roedd yr asiantaethau canlynol yn bresennol:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Addysg
- Tai
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
- Heddlu Gwent
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Hysbyswyd aelodau perthnasol o'r teulu bod yr adolygiad yn cael ei gynnal, a gwrthododd y teulu gymryd rhan yn yr adolygiad.

| |
|---|
| |
| ☒ Teulu'n gwrthod cymryd rhan |

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad derbyn y wybodaeth ………………………..

Dyddiad anfon llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Plant Lleol …………………………

Dyddiad dosbarthu i'r arolygiaethau/ Arweinwyr Polisi perthnasol ………………………….

| Asiantaethau | Do | Naddo | Reason |
|---|---|---|---|
| AGGCC | ☐ | ☐ | |
| Estyn | ☐ | ☐ | |
| AGIC | ☐ | ☐ | |
| Cwnstabliaeth EF | ☐ | ☐ | |
| Gwasanaethau Prawf EF | ☐ | ☐ | |